

**CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi: 22 Rhagfyr 2022**

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD**

**Teitl: Ymarfer "mopio i fyny" y rhaglen frechu rhag y fflw 2022-2023**

**Dyddiad dod i ben / Adolygu: Ddim yn gymwys**

**I'w weithredu gan:**

Ymarferwyr Cyffredinol  
Fferyllwyr cymunedol  
Prif Weithredwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd  
Arweinwyr Imiwneiddio, Ymddiriedolaethau/ Byrddau Iechyd  
Cydgyssylltwyr Imiwneiddio, Byrddau Iechyd  
Arweinwyr Fflw, Ymddiriedolaethau  
Cyfarwyddwyr Meddygol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd  
Prif Fferyllwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd  
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Cyfarwyddwr Cynllunio, Uned Gyflawni GIG Cymru  
Fferylliaeth Gymunedol Cymru  
Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol, Cymru

**Anfonir gan:** Prif Swyddog Meddygol Cymru

**Enw(au) Cyswllt GIGC yn Llywodraeth Cymru:**

Gwasanaethau Diogelu Iechyd, Adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Parc  
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

## Annwyl Gydweithiwr

Brechu rhag y fflw yw un o'r ymyriadau iechyd cyhoeddus mwyaf effeithiol i amddiffyn pobl rhag heintiau a lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol dros gyfnod prysur y gaeaf. Mae hyn wedi dod i'r amlwg eto dros yr wythnosau diwethaf yng nghyd-destun heintiau streptococcal grŵp A (GAS), gyda phryder parhaus teuluoedd a'r effaith ar wasanaethau o ganlyniad i hynny. Mae sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cael brechlyn rhag y fflw yn rhan bwysig o'r ymateb a'r ateb.

Mae cyd-weinyddu'r fflw a COVID-19 a brechu teg yn egwyddorion allweddol a amlinellir yn Strategaeth Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf 2022. Mae'r egwyddor 'gadael neb ar ôl' sydd wedi ymwreiddio yn y strategaeth wedi'i hadeiladu ar y cynsail y dylai pawb gael mynediad teg a chyfle teg i fanteisio ar y cynnig o frechiad.

Rydym yn gwybod bod y fflw yn cynyddu ac mae bellach yn cylchredeg yn y gymuned. Rwyf yn pryderu bod y nifer sy'n manteisio ar y brechlyn yn is na tharged Llywodraeth Cymru o 75% yn y garfan dros 65 oed ac is, mewn rhai achosion, yn llawer is, ar draws pob grŵp cymwys arall. O ganlyniad, rwyf yn gofyn i fyrddau iechyd gefnogi gwasanaethau Gofal Sylfaenol gyda'r gwaith 'mopio i fyny' ar y fflw o fis Ionawr, drwy ganolfannau brechu'r byrddau iechyd, ac rwyf yn ymwybodol bod elfen ar y gwaith partneriaeth hwn eisoes wedi dechrau yn ardaloedd rhai byrddau iechyd. Nod y weithred hon yw sicrhau bod y nifer uchaf posibl yn cael y brechlyn ym mhob grŵp, yn enwedig ymhlith plant ysgolion cynradd a phlant 2-3 oed, gan eu bod yn destun y lefelau uchaf o heintiau anadlol a GAS sy'n cyd-gylchredeg, a'r rhai mewn grŵp risg glinigol, sy'n cyd-fynd â'n hegwyddor 'gadael neb ar ôl'.

Gyda'r cynnydd diweddar yn y galw am wasanaethau Meddygon Teulu a Fferylliaeth Gymunedol, ac yn dilyn cylchrediad ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o heintiau GAS gan gynnwys streptococcal grŵp ymledol A (iGAS) a'r dwymyn goch, mae'r pwysau ar Ofal Sylfaenol yn sylweddol. Er hynny, mae heriau cyfun lefelau uchel o heintiau GAS, ochr yn ochr â'r lefelau uchel o feirws syncytiol anadlol (RSV), y fflw a chlefydau anadlol eraill, yn ei gwneud yn bwysicach byth cynnig cymaint o amddiffyniad â phosibl.

Bydd cydategu'r model presennol ar gyfer brechu rhag y fflw drwy fyrddau iechyd sy'n cynnig brechiadau heb eu cynllunio ochr yn ochr â brechiadau cynlluniedig parhaus rhag y fflw mewn meddygfeydd a fferyllfeydd cymunedol, yn helpu i leddfu'r pwysau presennol ar wasanaethau Gofal Sylfaenol yn ystod y cyfnod heriol hwn tra'n achub y cyfle hefyd i gynyddu cyfraddau brechu.

Gofynnir i fyrddau iechyd, sy'n gweithio ar y cyd â thimau Gofal Sylfaenol, lunio cynlluniau manwl ar sut y bydd yr ymarfer 'mopio i fyny' ar gyfer brechu rhag y fflw yn gweithredu. Pan fydd manylion terfynol y cynlluniau hyn wedi'u pennu, bydd angen eu rhannu ag Uned Gyflawni GIG Cymru, at ddibenion rheoli'r cyflenwad. Bydd angen i fyrddau iechyd hefyd gyfleu neges glir i'w poblogaethau lleol ynglŷn â sut, pryd a ble y mae unigolion yn gallu cael eu brechu yn yr ardal honno.

Mae'r gwaith dal i fyny presennol [ym maes polio <https://www.gov.wales/follow-advice-polio-catch-programme-children-under-5-years-old-whc2022029>](https://www.gov.wales/follow-advice-polio-catch-programme-children-under-5-years-old-whc2022029) sy'n para tan ddiwedd Mawrth 2023 hefyd yn gyfle cyd-weinyddu arall, i'r meddygon teulu hynny sy'n cymryd rhan, nodi a brechu plant ifanc sydd heb gael eu brechiad fflw eto.

### **Cyflenwad**

Bydd Byrddau Iechyd yn defnyddio stoc leol yn y lle cyntaf ond bydd ganddynt fynediad at y brechlyn fflw wrth gefn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i brynu'n ganolog ar gyfer 2022-23. Mae manylion sut i archebu a'r brechlynnau sydd ar gael i'w cael ar y ddolen lechyd y Cyhoedd [CMO-CEM-2022-25](#).

Dylid archebu cyflenwad LAIV ar gyfer brechu plant rhag y fflw drwy'r weithdrefn arferol drwy Immform.

### **Llif data brechu rhwng byrddau iechyd a meddygon teulu**

Rwyf yn gwybod na fydd modd adfer yn amserol y brechiadau a gofnodwyd yn System Imiwneiddio Cymru (WIS) i systemau meddygon teulu ar gyfer yr ymarfer mopio i fyny hwn.

Bydd crynodeb wythnosol o frechiadau a weinyddir yn cael ei ddarparu gan fyrddau iechyd i feddygon teulu cofrestredig unigolion sydd wedi'u brechu, ac rwyf yn cydnabod y bydd hyn yn gofyn am waith gweinyddol mewn meddygfeydd. Mae'r gwaith y mae ei angen yn debyg i'r hyn sy'n gysylltiedig â chofnodi brechiadau'r fflw a roddir mewn Fferylliaeth Gymunedol. Er hynny, bydd cofnod clinigol bod y brechiad wedi'i roi yn WIS a CYPRIS. Gofynnir i Fyrddau Iechyd a Phractisau Cyffredinol weithio mewn partneriaeth i reoli'r costau gweinyddol ychwanegol hyn. Ni ddisgwylir iddo fod yn sylweddol ar gyfer practisau unigol.

Byddai'r systemau canlynol yn cael eu defnyddio ar gyfer cofnodi'r brechiad yn y lle cyntaf:

- Unrhyw un 16 oed ac yn hŷn – ar WIS
- Unrhyw un 4 i 15 oed – ar CYPRIS
- Unrhyw un 2 a 3 oed – ar CYPRIS

Gan fod systemau data lluosog sy'n cael eu defnyddio i gofnodi brechiadau fflw, dylid gwneud pob ymdrech i wirio hanes brechu blaenorol unigolyn cyn gweinyddu'r brechlyn, er mwyn lleihau'r risg y bydd unigolyn yn cael ei frechu ddwywaith.

A gaf fi ddiolch i chi unwaith eto am eich cymorth parhaus i gynyddu'r nifer sy'n cael y brechlyn fflw ac i ddiogelu rhagor o bobl rhag y clefyd ataliadwy hwn a allai fod yn ddifrifol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Frank Atherton', with a horizontal line extending to the right.

**Dr Frank Atherton**  
**Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru**

## Atodiad A

Ni ellir defnyddio'r cyflenwad canolog ond i frechu unigolion sy'n gymwys i gael brechlyn am ddim o dan raglen y GIG a holl staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen. Mae manylion carfannau cymwys a gweinyddu'r rhaglen wedi'u nodi yn [WHC/2022/016](#).

Bydd y cyflenwad wrth gefn ar gael o ganol mis Tachwedd ymlaen. Ni ellir defnyddio'r cyflenwad ond pan fydd stociau lleol wedi'u defnyddio. Hoffem eich annog i gydweithio'n lleol o fewn y bwrdd iechyd, ymddiriedaeth neu glwstwr i ystyried a oes stociau o'r brechlyn ar gael i'w symud yn lleol cyn defnyddio'r cyflenwad cenedlaethol wrth gefn.

Bydd y stoc wrth gefn sydd ar gael yn cynnwys QIVc – Brechlyn meithriniad celloedd fflw pedwarfalent, ac aQIV – brechlyn fflw pedwarfalent byw wedi'i wanhau.

Darperir manylion pellach yn Nhabl 1 isod. Dylech ddilyn canllawiau JCVI a defnyddio'r brechlynnau a argymhellir fel y nodir yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru [WHC/2022/016](#).

Bydd yn ofynnol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau gofnodi brechiad staff y GIG gan ddilyn y canllawiau arferol a amlinellir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (gweler [Tudalen gwe imiwneiddio Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)).

## Y broses ar gyfer cael mynediad at y cyflenwad wrth gefn

Bydd arweinwyr brechu byrddau iechyd yn casglu ceisiadau am gyflenwad wrth gefn oddi wrth feddygfeydd a fferyllfeydd cymunedol. Ceir gwybodaeth bellach yn Atodiad C.

Gwybodaeth bwysig am ddefnyddio'r cyflenwad o frechlynnau fflw wrth gefn

1. I'r rhai sy'n darparu brechlynnau fflw, ystyriwch a oes angen cael mynediad at y cyflenwad o frechlynnau fflw wrth gefn drwy gymharu'r cyfraddau brechu presennol â'r gyfradd sydd yn nod yn erbyn y cyflenwad brechlynnau presennol a ddelir (gan sicrhau eich bod yn ystyried yr holl frechlynnau fflw sydd wedi'u harchebu ond heb eu darparu eto gan gyflenwyr). Ni ddylech archebu stoc a gyflenwir yn ganolog nes y bydd eich holl archebion brechlynnau lleol wedi'u derbyn a'u defnyddio.
2. Dylai byrddau iechyd roi trefniadau lleol ar waith i fonitro lefelau stociau o frechlynnau a ddelir o fewn y bwrdd iechyd neu'r ymddiriedolaeth. Dylid symud stociau dros ben a ddelir mewn un lleoliad i leoliadau eraill cyn cael mynediad at y cyflenwad canolog, gan ddefnyddio'r stoc sydd gan fyrddau iechyd cyfagos, os yw ar gael, yn y lle cyntaf. Mae'n bwysig cydgysylltu'r archebu er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r cyflenwadau sydd ar gael.

3. Mae Tabl 1 isod yn nodi'r brechlynnau sydd ar gael o'r cyflenwad wrth gefn ac isafswm ac uchafswm maint archebion ar gyfer lleoliad pob meddygfa fferyllfa gymunedol.
4. Byddwn yn monitro lefelau stoc ganolog ac yn rhannu'r wybodaeth i'w thrafod yng nghyfarfodydd y Grŵp Cynllunio a Chyflawni Rhaglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol, a fyny chir gan arweinwyr brechu'r byrddau iechyd.
5. Ni ddylai meddygon teulu a fferyllfeydd cymunedol ond archebu digon o frechlynnau i gwmpasu'r galw disgwylidig gan na fyddwch yn gallu dychwelyd brechlynnau ffliw sydd heb eu defnyddio. Mae uchafswm terfynau archebion wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod gan bob ardal yng Nghymru fynediad at gyflenwadau o'r brechlyn ac i atal pentyrru gormod o stoc. Byddwchystal â nodi'r isafswm/uchafswm maint archebion a'r amseroedd dosbarthu a nodir yn Nhabl 1.
6. Dylai meddygon teulu, fferyllfeydd cymunedol, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau gael systemau ar waith i storio a gweinyddu'n lleol unrhyw stoc a gyflenwir yn ganolog mewn modd sy'n cefnogi cynnal a chadw'r gadwyn oer, a chadw cofnodion cywir.
7. Gan fod stoc yn gyfyngedig, dylai meddygon teulu a fferyllfeydd cymunedol anelu at beidio â gofyn am fwy nag un archeb o'r cyflenwad wrth gefn. Gall archebu fwy nag unwaith gyfyngu ar argaeledd slotiau dosbarthu a gall fod angen ymyrraeth er mwyn sicrhau mynediad teg at gyflenwad ledled Cymru.
8. Ni fyddwch yn gallu dychwelyd unrhyw stoc ganolog sydd heb ei defnyddio i gyflenwyr. Dylid gwneud pob ymdrech i ailddosbarthu unrhyw stoc ganolog sydd wedi ei harchebu ac nad oes ei angen, i'w defnyddio mewn mannau eraill. Os nad yw hynny'n bosib, bydd gofyn i'r meddyg teulu, y fferyllfa gymunedol, y bwrdd iechyd neu'r ymddiriedolaeth gael gwared ag unrhyw stoc sydd heb ei defnyddio, a hynny fel cam olaf yn unig. Dylai stoc gael ei gwaredu ar y cyd â phrotocolau lleol.
9. Mae'n hanfodol cadw cofnod clir ynglŷn â swm, math o frechlyn(au) a rhifau swp sydd wedi'u hailddosbarthu neu eu gwaredu.
10. Rhaid i'r brechlynnau ffliw hyn a gyflenwir yn ganolog beidio â chael eu defnyddio, o dan unrhyw amgylchiadau, i frechu cleifion preifat ac maent wedi'u gwahardd rhag cael eu trosglwyddo i drydydd parti yn gyfnewid am daliad.
11. Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn gwneud trefniadau ar gyfer dilysu hawliadau ffliw ar ôl talu a chadw at y gofynion yn y llythyr hwn.

**Tabl 1**

Brechlynnau ar gael gan bob cyflenwr, amserlenni, ac isafswm / uchafswm archebion. Mae'r dyddiadau cyflwyno cyntaf disgwylidig yn ddangosol yn unig gan nad yw'r rhain yn cael eu cadarnhau ac fe allent newid.

<b>Cyflenwr</b>	<b>Math o frechlyn</b>	<b>Danfoniadau cyntaf disgwylidig</b>	<b>Isafswm archeb (dosau)</b>	<b>Uchafswm archeb</b>
Serus	aQIV (brechlyn fflw pedwarfalent), antigen wyneb, anweithredol	Canol mis Tachwedd	10	100
Seqirus	QIVc (brechlyn fflw pedwarfalent wedi'i feithrin mewn celloedd), antigen wyneb, anweithredol	Canol mis Tachwedd	10	100

## Atodiad B

At: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i'w anfon ymlaen at:

Pob Ymarferydd Cyffredinol - byddwch cystal â sicrhau bod y neges hon yn cael ei gweld gan bob nyrs practis a rhai nad ydynt yn benaethiaid sy'n gweithio yn eich practis a chadw copi yn eich pecyn gwybodaeth i feddygon locwm.

Pob Fferyllfa Gymunedol  
Gwasanaethau Dirprwyo

At: Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG:

Brif Weithredwyr  
Cyfarwyddwyr Meddygol  
Cyfarwyddwyr Nyrsio  
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd  
Prif Fferyllwyr  
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl  
Cyfarwyddwr Cynllunio, Uned Gyflawni GIG Cymru  
Cydgysylltwyr Imiwneiddio

At: Iechyd Cyhoeddus Cymru:  
Prif Weithredwr  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd:  
Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy  
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy

Cc: GPC (Cymru)  
RCGP (Cymru)  
Fferylliaeth Gymunedol Cymru  
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Cymru

**Dogfennau amgaaedig:** Dim

ff